CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

# Grantiau Cyhoeddi Cymraeg

## Tendr Cylchgronau Cymraeg: 2027–31

Cyngor Llyfrau Cymru / Books Council of Wales
Castell Brychan Aberystwyth Ceredigion SY23 2JB
01970 624 151 llyfrau.cymru

An English-language version of this document is also available
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad adolygu: 30 Ionawr 2026

# 1 Cyflwyniad

Mae'r Cyngor Llyfrau yn chwilio am gyfleoedd i gefnogi cylchgronau Cymraeg o bob math fydd yn apelio at gynulleidfaoedd amrywiol. Mae cyfle i gylchgronau sy'n bod yn barod a chroeso i syniadau newydd sbon. Os ydych yn newydd i'r broses neu i gyhoeddi cylchgronau Cymraeg yna mae croeso i chi gysylltu ag **arwel.jones@llyfrau.cymru** i drefnu sgwrs.

# 2 Cyd-destun

Bydd disgwyl i'r tendr hwn fod yn gystadleuol iawn. Mae cynnal cystadleuaeth yn naturiol yn rhan o'r broses o sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddyfarnu'n deg, yn gyfle i ymgeiswyr newydd geisio am gefnogaeth, yn ogystal â bod yn gyfle i deitlau cyfredol ystyried eu cyfeiriad a cheisio am barhad i'r nawdd.

**Ond, eleni, mae ffactorau eraill yn golygu y gall hon fod yn broses anarferol o gystadleuol. Tra bod y gyllideb wedi gostwng o £380,000 i £367,000, mae costau pob un cylchgrawn wedi cynyddu ac mae disgwyl y bydd syniadau newydd yn cael eu cynnig. Canlyniad hyn yw ei bod hi'n anorfod y bydd newidiadau yn y nifer a'r math o deitlau fydd yn cael eu noddi.**

**Dylid cofio, yn ogystal, bod pob proses yn ddechrau newydd a phob cyfnod tendr yn gytundeb newydd, annibynnol ar yr un presennol ac nad yw'r cytundeb presennol, ynddo'i hun, yn rhoi hawl i barhad o'r cytundeb hwnnw.**

# 3 Mathau o Gylchgronau

Amcan y cynllun ydy sicrhau cyhoeddi amrywiaeth o gylchgronau safonol a bywiog yn Gymraeg. Rydym yn gobeithio cefnogi cylchgronau ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n cynnwys ysgrifennu da a newyddiaduraeth safonol.

Rydym yn credu'n gryf fod cylchgronau yn rhan bwysig o'r diwylliant Cymraeg a byddwn yn disgwyl i'r cylchgronau a noddir, gyda'i gilydd, drafod nifer o bynciau amrywiol. Fel corff sy'n noddi llyfrau rydym hefyd yn gweld lle pwysig i'r cylchgronau adolygu llyfrau Cymraeg a Chymreig perthnasol i'w maes nhw yn gyson.

# 4 Syniadau Newydd?

Mae'r gronfa yn agored i deitlau sydd eisoes yn derbyn arian o'r gyllideb hon. Byddai'r Cyngor yn croesawu clywed am gynlluniau newydd gan y teitlau hyn o ran cynnwys, dyluniad, cyfrwng ac amlder eu cyhoeddi.

Fodd bynnag, byddai croeso arbennig hefyd i geisiadau am gylchgronau newydd sbon. Byddai modd ystyried patrwm cyhoeddi gwahanol dros y misoedd cyntaf o gyhoeddi er mwyn caniatáu amser i gylchgrawn newydd sefydlu ei hun.

Os ydych cyn gwneud cais i sefydlu cylchgrawn newydd sbon, lle bynnag y mae'r canllawiau hyn yn holi am dystiolaeth o gyhoeddiadau'r gorffennol dylech gynnwys

cynlluniau, ymchwil marchnad, brasluniau, neu gopïau o gylchgronau mewn ieithoedd eraill yr ydych yn anelu i'w hefelychu.

# 5 Amrywiaeth

Mae'n allweddol i weledigaeth y Cyngor bod Cymru a siaradwyr Cymraeg yn eu holl amrywiaeth yn cael eu cynrychioli yn y cylchgronau. Rydym yn diffinio amrywiaeth yn fras i olygu'r nodweddion hynny a warchodir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010: hil, anabledd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, crefydd neu gred, priodas a phartneriaeth sifil, oedran, beichiogrwydd a mamolaeth. Mae gan y cylchgronau fodd o gyflawni hynny o ran cynnwys gweledol yn ogystal ac ysgrifenedig. Mae'r tendr hwn yn gyfle gwych i chi rannu gyda ni sut yr ydych chi wedi a/neu sut y gallwch chi gyfrannu at y weledigaeth honno. Mae cynnwys amrywiol yn golygu cylchgronau sy'n adlewyrchu Cymru yn ei chyfanrwydd fydd o'r herwydd yn fwy diddorol ac yn debyg o gynnig rhywbeth gwahanol i'r gynulleidfa bresennol a, gobeithio, denu cynulleidfa newydd.

Bydd disgwyl i chi gyflwyno tystiolaeth o sut yr ydych yn gweithredu yn y maes hwn o ran dulliau gweithdrefnau mewnol a datganiadau cyhoeddus.

# 6 Y Grant

£367,000 y flwyddyn fydd cyfanswm y gyllideb gyfan ar gyfer cylchgronau yn y tendr hwn. Mae'r arian hwn yn rhan o'r Grant Cyhoeddi a ddaw oddi wrth Lywodraeth Cymru.

Mae'n bwysig eich bod yn ymgeisio am swm realistig i gyflawni yr hyn sydd yn eich cais. Bydd y llwybr ymgeisio ar gyfer ceisiadau am £10,000 neu lai yn ysgafnach na'r un dros £10,000.

Gwneir unrhyw gynnig yn amodol ar barhad y cyllid gan Lywodraeth Cymru a bydd disgwyl i bob cais fod wedi ei gostio'n drylwyr fel bod y fenter yn gynaliadwy o fewn y grant y mae'r cyhoeddwr yn gofyn amdano.

# 7 Y Math o Gylchgronau Na Fydd y Grant yn Gefnogi

Nid yw'r cynllun yn cefnogi:

- cylchgronau addysgol.
- cylchgronau lleol eu hapêl.

# 8 Y Pethau Fydd Bwysicaf i'r Panel

## Lle yn y farchnad

Dylai'r ymgeiswyr ddangos sut mae eu cynnig hwy yn llenwi bwlch yn y ddarpariaeth cylchgronau Cymraeg ar hyn o bryd, boed y cylchgronau hynny yn derbyn nawdd gan y Cyngor Llyfrau ai peidio.

## Safon

- Er mwyn cyrraedd y potensial uchod mae safon y cyhoeddiad yn bwysig iawn. Mae disgwyl i'r golygu fod yn fywiog a thrylwyr, ac i'r dylunio a'r cynhyrchu gyfrannu tuag at gyrraedd y gynulleidfa darged. Felly bydd y Panel yn edrych ar elfennau yn ymwneud â safonau golygyddol a safonau cynhyrchu:

  **Golygyddol**

  - Gweledigaeth olygyddol
  - Safon olygyddol

  **Cynhyrchu**

  - Safon gweledol y rhifynnau diweddaraf
  - Safon cynhyrchu y rhifynnau diweddaraf
  - Byddwn yn holi yma am eich agwedd at y defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial a phryd i'w ddefnyddio a pheidio'i ddefnyddio, o ran gwaith golygyddol, creadigol a gweinyddol.

## Gwerthiant

Dylai'r ymgeiswyr adrodd ar werthiant dros gyfnod y tendr presennol, o ran tanysgrifiadau a gwerthiant trwy'r siopau ac ystyried sut mae'r gwerthiant hwnnw yn cyfateb i'r potensial maen nhw'n weld yn y farchnad a sut gellid datblygu dros y cyfnod nesaf.

## Cyrhaeddiad

Os yw'r cais yn argymell defnyddio model rhannu-am-ddim neu fodel digidol i rannu cynnwys dylai'r ymgeisydd adrodd ar gyrhaeddiad dros gyfnod y tendr presennol a sut mae'r cyrhaeddiad hwnnw'n cyfateb i'r potensial maen nhw'n ei weld yn y farchnad a sut gellid datblygu dros y cyfnod nesaf.

## Incwm masnachol

- **Incwm o werthiant:** Dylai'r ymgeisydd adrodd ar incwm o werthiant dros gyfnod y tendr diwethaf a'r rhagolygon am flwyddyn gyntaf y tendr.
- **Cynllun prisio:** Beth fydd y cynllun prisio dros gyfnod y tendr? Sut bydd pris y clawr yn cynyddu mewn perthynas â rhagolygon gwerthiant, cost cynhyrchu a chostau postio/dosbarthu? Beth yw'r margin elw disgwyliedig ar unrhyw adeg?
- **Incwm nawdd:** Beth yw'r incwm nawdd wedi bod dros gyfnod y tendr diwethaf, y rhagolygon am flwyddyn gyntaf y tendr newydd a'r cynllun i gyflawni hynny.

## Cyfradd Incwm a Nawdd

All dim mwy na 66% o gyfanswm incwm y cylchgrawn fod yn grantiau. Mae cyfraniadau gwirfoddol yn gallu cyfri tuag at y 33% o incwm nad yw'n grant.

## Rheolaeth

Bydd disgwyl i'r ymgeisyr allu adrodd ar:

- Berthynas cynnwys digidol ac analog
- Eu gallu (yn hanesyddol) i gadw at amserlen gyhoeddi
- Eu cynlluniau hyrwyddo a marchnata
- Eu cynlluniau dosbarthu
- Y rhwydweithiau sy yn eu lle i reoli/gefnogi a chynghori y cylchgrawn a'r golygyddion: ee Bwrdd Rheoli, Bwrdd Ymgynghorol, Cyfrifwyr ayb
- Rheoli risg: Canllawiau i ddiogelu'r cyhoeddiad yn achos absenoldeb aelodau allweddol o'r tîm neu broblemau technolegol.

## Pwysoli

Bydd yr uchod yn cael eu mesur a'u pwysoli fel a ganlyn:

| **Meysydd i'w blaenoriaethu:** | **Pwysau** |
|---|---|
| Llenwi bwlch yn y farchnad | 25% |
| Safon Olygyddol | 20% |
| Safon Cynhyrchu | 20% |
| Gwerthiant vs Potensial **neu** Cyrhaeddiad vs Potensial | 15% |
| Cyfradd Incwm/Nawdd | 10% |
| Rheolaeth | 10% |

## Ymwadiad

- Gwneir y cynnig o grant ar sail y wybodaeth sydd yn y cais ac mewn unrhyw ohebiaeth atodol. Os na chyflawnir y dibenion y cynigiwyd y grant ar eu cyfer mewn da bryd, neu os na chydymffurfiwyd â'r amodau perthnasol, gall CLIC ei gwneud yn ofynnol i'r derbynnydd ddychwelyd y cyfan neu ran o unrhyw grant a allai fod wedi'i dalu.
- Mae'r Cyhoeddwr drostynt eu hunain (ac eraill) yn ymrwymo i'r Cyngor Llyfrau a'i olynwyr mewn teitl y bydd y Cyhoeddwr bob amser o hyn ymlaen yn cadw'n ddiniwed ac yn indemnio'r Cyngor Llyfrau rhag pob achos, cost, hawliad a galw mewn perthynas ag unrhyw weithred a allai arwain at dorri unrhyw un o gyfreithiau Cymru a Lloegr.

## 9 Cynnwys Digidol

Rydym yn awyddus i weld bod gan y cylchgronau bresenoldeb digidol. Bydd disgwyl i bob ymgeisydd ddangos eu bod wedi rhoi ystyriaeth lawn i berthynas eu cyhoeddiad â'r byd digidol a sut maen nhw'n rhannu cynnwys yn ddigidol a'r sylw mae'r cynnwys hwnnw'n ei gael.

## 10 Amserlen

Hysbysebu: Chwefror

**Dyddiad Cau: Hanner dydd, 20 Ebrill 2026.**

Dyfarniad: Yn dilyn cyfarfod mis Mehefin o'r Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi.

Mae'r grantiau newydd yn weithredol o 1 Ebrill 2027 hyd 31 Mawrth 2031 ac yn ddibynnol ar barhad y cyllid gan Lywodraeth Cymru.

## 11 Y Drefn

Bydd Panel o'r Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi ynghyd â rhai ymgynghorwyr allanol yn penderfynu ar y ceisiadau llwyddiannus.

Rydym yn cadw'r hawl i gyfweld ymgeiswyr tro cyntaf, ond yn gyffredinol ni fyddwn yn cyfweld ymgeiswyr ar gyfer y tendr hwn.

Bydd penderfyniad yr Is-bwyllgor yn derfynol. Ni fydd modd apelio yn erbyn y penderfyniad. Os oes bydd pryder ynglŷn â'r drefn a ddilynwyd, dylid dilyn y drefn gwyno sydd ar wefan y Cyngor Llyfrau.

**Bydd angen i'r Cyngor dderbyn copïau derbyniol o bob un o'r atodiadau hyn cyn dechrau prosesu'r cais:**

- Yn achos cylchgronau print cyfredol: cyfanswm o ddeg copi o blith rhifynnau diweddar eich cylchgrawn.
- Os nad yw eich cylchgrawn yn cael ei gyhoeddi ar hyn o bryd, anfonwch 10 copi o gylchgrawn neu gylchgronau yr hoffech eu hefelychu mewn rhyw ffordd.
- Copi o'r ffurflen ariannol a ddarperir.
- Copi o gyfrifon diwethaf y cylchgrawn (yn achos cyhoeddiad sy'n bod yn barod)
- Adroddiad ar werthiant a/neu gyrhaeddiad dros gyfnod y tendr diwethaf
- Adroddiad ar incwm o werthiant a nawdd dros gyfnod y tendr diwethaf
- Copïau o dri amcan-bris diweddar am gostau argraffu
- Polisi cydraddoldeb
- Canllawiau comisiynu, cyflwyno, a chyhoeddi

- Tystiolaeth ffotograffig o'ch cyhoeddiad, a'ch gwefan; (a'ch cyfryngau cymdeithasol, os yw hynny'n briodol); yn dangos datganiad yn croesawu deunydd gan gyfranwyr newydd ac amrywiol.

## 12 Y Cais

Defnyddiwch y ffurflenni a ddarparwyd i gyflwyno’ch cais.

**Dylid ebostio copi o’r ffurflenni rhain ar ffurf Word ac Excel at:**
**jane.hopkins@llyfrau.cymru**, gyda thestun TENDR CYLCHGRONAU Cymraeg erbyn canol dydd ar 20 Ebrill 2026. Mae  croeso i chi yrru copi PDF yn ogystal os dymunwch.

Cofiwch y dylid cadw at y cyfyngiad geiriau wrth ateb y cwestiynau.
**Byddwn yn diystyru geiriau sydd y tu hwnt i'r uchafswm a nodir.**

Mae croeso i chi gyflwyno eich cais yn Gymraeg neu yn Saesneg.